
# CALON DROS GENHADAETH

Canllaw astudio dros bump wythnos yn ystyried ffydd ar waith, yn dwyn ysbrydoliaeth o Eglwys Talaith Myanmar.



USPG PARTNERS IN GLOBAL MISSION

# CALON DROS GENHADAETH

I nifer o Gristnogion, y mae'r eglwys yn bod ar gyfer cenhadaeth. I eraill, mae'r gair 'cenhadaeth' yn sawri o syniadau o gyfnod y gwladychu imperialaidd neu o Efengylu llaw-drwm. Ac yna mae nifer fwy o bobl sy'n gymysglyd neu'n ddifater am union ystyr cenhadaeth.

Amcan y cwrs astudiaeth hwn yw cymryd golwg ffres ar genhadaeth a beth mae'n ei olygu yn yr unfed ganrif ar hugain. I'n cynorthwyo gyda hyn, byddwn yn ystyried y Pum Nod Cenhadol – diffiniad o genhadaeth a fabwysiadwyd gan Eglwysi Anglicanaidd ar draws y byd – ac fe gawn bersbectif byd-eang drwy edrych ar y modd y mae Eglwys Talaith Myanmar yn deall ac yn cyflawni cenhadaeth.

Erbyn diwedd y cwrs byr hwn, bydd gan bob un ohonom ddealltwriaeth o le cenhadaeth yng nghalon ein ffydd.

Cyfieithwyd gan Noel Davies

# GWEITHIO GYDA'R PUM NOD CENHADAETH

Yn yr '80au, 'roedd y farn ymhlith Eglwysi Anglicanaidd ar draws y byd yn ranedig rhwng y sawl a welai genhadaeth yn nhermau iachawdwriaeth bersonol yn unig a'r sawl a welai genhadaeth yn nhermau datblygiad a newid cymdeithasol. Cynhaliodd y Cyngor Anglicanaidd Ymgynghorol – corff rhyngwladol sy'n cynrychioli'r Cymundeb Anglicanaidd – gyfres o gyfarfodydd i drafod ystyr cenhadaeth. Cydnabu'r Cyngor nad oedd Efengylu na datblygiad ar eu pennau eu hunain yn gwneud cyfiawnder â'r Comisiwn Mawr roddwyd gan Iesu ym Mathew 28.19: 'Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân...' Rhwng 1984 ac 1990, cyfarfu'r Cyngor nifer o weithiau i drafod, astudio a gweddïo gyda'i gilydd. Adnabu'r Cyngor yr hyn a alwyd ganddynt yn Bum Nod Cenhadaeth – pump agwedd sy'n cyd-ymblethu a gyda'i gilydd yn cynnig dealltwriaeth gyfannol o genhadaeth. Yn eu ffurf diweddaraf, y Pum Nod yw:

- Cyhoeddi Newyddion Da'r Deyrnas
- Dysgu, bedyddio a meithrin credinwyr newydd
- Ymateb i angen pobl drwy wasanaeth cariadus
- Ceisio trawsnewid strwythurau anghyfiawn cymdeithas, herio trais o bob math ac ymgyrraedd at heddwch a chymod
- Anelu at warchod cyfanrwydd y Cread, a chynnal ac adnewyddu bywyd ar y ddaear.


Amcan y cwrs astudio hwn yw ystyried y Pum Nod Cenhadaeth, gofyn sut y maent yn cryfhau'n dealltwriaeth ni o genhadaeth ac ystyried sut mae Eglwys Anglicanaidd Myanmar yn eu gweithredu.

# CANOLBWYNTIO AR GENHADAETH ERS 1701

Byth oddi ar ei ffurfio, cenhadaeth fu prif ffocws USPG.

Wedi ei sylfaenu yn 1701 fel y Gymdeithas dros Ledaenu'r Efengyl mewn Parthau Tramor (Society for the Propagation of the Gospel neu SPG) gan y Parchg Ddr. Thomas Bray, gweithiodd SPG i sicrhau fod Saeson a fudodd i America yn cadw'u ffydd Anglicanaidd. Yn y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, canolbwyntiodd SPG ar genhadaeth feddygol ac addysg. Yn awr, gelwir yr SPG yn USPG, a bellach nid yw'n danfon cenhadon dramor.

Yn hytrach, cydweithia USPG gyda phartneriaid ar draws y Cymundeb Anglicanaidd, gan ddysgu oddi wrth ein gilydd a ninnau'n byw math newydd o genhadaeth. Mae USPG yn cefnogi a hyrwyddo gweithgareddau mewn esgobaethau a thaleithiau, dan arweiniad eglwysi lleol. Yn aml, y mae rhain yn canolbwyntio ar ofal iechyd cymunedol, addysg ddiwinyddol a chyfiawnder ecolegol. Drwy bartneru gydag eglwysi lleol yn hytrach na chenhadu iddynt, down i ddeall yn well beth sydd ei angen mewn cyd-destunau penodol. Cawn ddysgu hefyd oddi wrth yr eglwysi hyn, gan gael crebwyll llawnach o faterion ymarferol a diwinyddol, y gallwn wedyn eu cymhwyso i'n cyd-destun ni'n hunain. Mae'r gwahaniaeth rhwng y genhadaeth oedd wrth wraidd gwaith Bray drwy SPG a model cyfredol USPG yn drawiadol iawn. Ac eto, trwy gydol ein hanes, bu cenhadaeth mewn un ffurf neu'i gilydd yn ganolog i'r hyn ydym a'r hyn a wnawn. Dyma'n dwyn ni at bwnc y canllaw astudio hwn: beth yw cenhadaeth a sut ydym yn ei ddeall heddiw?



> “
> Trwy gydol ein hanes, bu cenhadaeth yn ganolog i'r hyn ydym a'r hyn a wnawn

# GOLWG AGOSACH AR ANGLICANIAETH

“

Amcangyfrifir fod tua 80 miliwn o Anglicaniaid ar draws y byd ar hyn o bryd

## Y CYMUNDEB ANGLICANAIDD

Y Cymundeb Anglicanaidd yw'r rhwydwaith fyd-eang o eglwysi a gychwynnodd gydag Eglwys Loegr.

## EGLWYSI ANGLICANAIDD, TALEITHIAU AC ESGOBAETHAU

Nid un 'Eglwys Anglicanaidd' fyd-eang sydd, ond Eglwys Anglicanaidd hunan-lywodraethol ym mhob talaith – yn aml y mae talaith yn ymestyn dros un gwlad ond gall ymestyn dros gylch o wledydd. Er enghraifft, y mae Eglwys Anglicanaidd Corea yn ymestyn dros Corea yn unig; mae Eglwys Anglicanaidd Canolbarth Affrica yn cynnwys Botswana, Malawi, Sambia a Simbabwe. Rhennir pob talaith yn esgobaethau. Er enghraifft, y mae 42 esgobaeth yn Eglwys Loegr (Esgobaeth Manceinion, Esgobaeth Lincoln ac yn y blaen). Arweinir pob talaith gan archesgob (er y bydd yr union deitl yn amrywio); arweinir pob esgobaeth gan esgob.

## ANGLICANIAID YN FYD-EANG

Amcangyfrifir fod tua 80 miliwn o Anglicaniaid ar hyn o bryd mewn 41 o Eglwysi Anglicanaidd ar draws y byd.

## PEDWAR OFFERYN CYMUNDEB

Caiff y Cymundeb Anglicanaidd ei ffocws a'i gyfeiriad drwy bedwar 'offeryn Cymundeb'. Sef,

- Archesgob Caergaint, fel “y cyntaf ymhlith y cyfartal”;
- Cynhadledd Lambeth, a gynhelir bob deg mlynedd, y caiff pob archesgob ac esgob eu gwahodd iddi;
- Cyfarfod Archesgobion/ Preladiaid ('Primates' yn Saesneg), y caiff pob arweinydd talaith wahoddiad iddo;
- Y Cyngor Ymgynghorol Anglicanaidd, sy'n cyfarfod bob dwy flynedd sydd â'i aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r eglwys ym mhob talaith, gan gynnwys pobl nad ydynt wedi'u hordeinio.

# CENHADAETH AC EGLWYS MYANMAR

Dechreuodd USPG ymwneud ag Eglwys Talaith Myanmar (ETM) ym 1854. Dros y blynyddoedd, adeiladwyd perthynas agos rhwng USPG a ETM drwy raglenni addysg, gofal iechyd ac arweinyddiaeth.

Yn wyneb cyfyngiadau cyfreithiol ac ansicrwydd gwleidyddol, mae Eglwys Myanmar yn dangos cariad Iesu Grist wrth iddi wasanaethu cymunedau sydd ar yr ymylon.

Yn ôl y Gwir Barchg John Wilme, cyn-Esgob Esgobaeth Toungoo, "Rhannu Newyddion Da ein Harglwydd Iesu Grist drwy weithredu yw cenhadaeth, nid yn unig mewn pregethu neu gyhoeddi'r Efengyl, ond drwy fynd allan i'r maes a gwasanaethu'r tlodion. Ym Myanmar, mae rhannu'r Newyddion Da yn anodd gan fod Cristnogion yn grŵp lleiafrifol. Felly, gwnawn hyn drwy'n gwasanaeth – cynnig gofal iechyd a hyfforddi athrawon."

Cysyllta'r Gwir Barchg. Ddr Mark Saw Maung Doe, Esgob Esgobaeth Hpa-an, weinidogaeth ETM â Llyfr y Pregethwr 3:7 – "y mae amser i dewi ac amser i siarad". Meddai, "Dysgodd Iesu ei ddisgyblion am y deyrnas yn ddiflino, ac eto wedi ei restio, peidiodd Iesu â siarad am hyn a chadwodd yn dawel. I Iesu, 'roedd yr amser i siarad drosodd ac 'roedd yn amser i dewi". Yn yr un modd, mae amserau pan mae'n briodol i ETM siarad yn uniongyrchol â phobl am y Newyddion Da, ac mae yna amserau pan fyddant yn Efengylu'n fwy effeithiol drwy barhau i gynnig gwasanaeth tawel i gymunedau lleol.



> Mae Eglwys Myanmar yn dangos cariad Iesu Grist

# FFEITHIAU AM MYANMAR

- **Prif ddinas:** Nay Pyi Taw
- **Y ddinas fwyaf yn ôl poblogaeth:** Yangon
- **Ieithoedd:** Byrmaneg, ieithoedd ethnig brodorol
- **Crefydd:** Bwdhyddion 88%, Cristnogion 6%, Muslimiaid 4%, animistiaid 1%, arall 1%
- **Poblogaeth:** 54.6 miliwn
- **Disgwyliad oes:** 68 mlynedd
- **Llythrennedd oedolion:** 76%
- **Allforion:** Nwy naturiol, coed, ffa a phylsiau, pysgod, reis, dillad, jâd
- **Mae gan Eglwys Talaith Myanmar** chwech esgobaeth a dwy esgobaeth genhadol, gyda chyfanswm o dros 70,000 o aelodau.



> Cyfanswm o dros 70,000 o aelodau

# ASTUDIAETH 1

# CYHOEDDI NEWYDDION DA'R DEYRNAS



Adlewyrcha'r Nod Cenhadaeth Cyntaf adrannau o'r Efengylau lle mae Iesu'n danfon allan ei ddisgyblion i gyhoeddi Newyddion Da Teyrnas Dduw (e.e. Mathew 10:5-42, Mathew 28:16-20, Luc 9:1-6). Mewn ffordd, y mae'r Nod Cyntaf hwn yn grynodeb o'r pum Nod, gan ei fod yn cwmpasu efengylu, gwasanaethu, trawsnewid ac adnewyddu. Wrth inni ystyried y Nod Cenhadaeth Cyntaf hwn, gadewch inni feddwl am eiriau'r diwinydd Emil Brunner: "Y mae'r Eglwys yn bodoli drwy genhadu yn union fel mae tân yn bodoli drwy losgi."

## DECHRAU

Ar gychwyn y cwrs hwn, meddyliwch am beth mae cenhadaeth yn ei olygu i chi. Nodwch frawddeg neu ddwy sy'n crynhoi eich dealltwriaeth o genhadaeth ar hyn o bryd.

## STORI O MYANMAR

Y mae calon Eglwys Talaith Myanmar (ETM) wedi ymroi i ddilyn gair Duw a bu'r Eglwys yn brysur gydag Efengylu a chenhadaeth ers degawdau. Yn 2014, bu'r Adran Efengylu a Chenhadu yn adolygu a datblygu ei gweledigaeth a'i hamcanion. Un o'r amcanion oedd fod aelodau'r Eglwys yn datblygu strategaeth Efengylu. Gan hynny, dewisir un ardal genhadol gan yr Adran yn flynyddol ar gyfer pob esgobaeth, sy'n arwain at ymweliadau cenhadol bob blwyddyn. Gan amlaf, mae'r ardaloedd cenhadol hyn mewn mannau lle mae credinwyr yn brin a lle nad oes llawer o adnoddau gofal iechyd.

Yn 2016, ymwelodd yr Adran Efengylu a Chenhadaeth â phentref Aung Soe Moe ym mhlwyf Kanyutkwin. Ers ugain mlynedd, bu pentref Aung Soe Moe oddi fewn i diriogaeth y gwrthdaro rhwng byddin Myanmar a byddin Undeb Cenedlaethol Karen; golygai hyn iddo fod ar gau i ymwelwyr. Yn y blynyddoedd diweddar, llofnodwyd cytundebau atal tanio rhwng y ddwy fyddin, sy'n golygu ei bod yn bosibl ymweld â'r ardal unwaith eto.

Cyn i'r Eglwys ymweld â Aung Soe Moe, dim ond tri teulu Anglicanaidd oedd yn byw yn y pentref. Rhwng Rhagfyr 1af a'r 10fed 2016, dygodd yr Adran Efengyl a Chenhadaeth dîm o 25 o bobl i'r pentref yn cynnwys meddygon, nyrsys, a chyfarwyddwyr chwech o adrannau'r esgobaeth. Llwyfannodd yr Adran stori'r Nadolig, perfformiodd stori Feiblaidd, rhannodd y Newyddion Da yn nhafodiaith y pentref, gweddïodd gyda'r pentrefwyr a chyflawnodd driniaeth feddygol dros y deg diwrnod y buont yn y pentref. Ar y pryd, nid oedd eglwys Anglicanaidd yn yr ardal a bu'r Bedyddwyr yn ddigon hael â'u caniatáu i fyw yn neuadd Eglwys y Bedyddwyr a lletya yng nghartrefi'r aelodau tra'r oeddent yno. Yn ystod yr ymweliad mynegodd y tîm Efengylu a Chenhadu gariad Duw drwy rannu'r Efengyl gyda'r pentrefwyr yn ogystal â dangos gweithgarwch cenhadol ymarferol drwy ddilyn esiampl Iesu yn eu bywyd. "Rhannu a chyhoeddi'r Efengyl yw cenhadaeth a dangos gofal cariadus dros ein gilydd," meddai Ruth Pathi Paw, Cyfarwyddydd Cynorthwyol yr Adran Efengylu a Chenhadu Daleithiol, un o'r rhai oedd yn arwain ymweliad y genhadaeth feddygol.



> "Cyn i'r Eglwys ymweld â Aung Soe Moe, dim ond tri teulu Anglicanaidd oedd yn byw yn y pentref

## CWESTIYNAU

- Rhestrwch y gwahanol ffyrdd y bu i'r tîm Efengylu a Chenhadu ledaenu newyddion da'r Efengyl.
- P'un o'r gweithgareddau hyn y gallech chi ei ddefnyddio i rannu'r Efengyl yn eich cymuned chi?
- Pa heriau a wynebodd yr adran Efengylu a Chenhadaeth wrth ledaenu'r Efengyl? Pa heriau y byddwch chi'n eu hwynebu wrth ledaenu'r Efengyl yn eich cyd-destun chi?

## COLOSIAID 1:19-23

**19** Oherwydd gwelodd Duw yn dda i'w holl gyflawnder
breswylio ynddo ef, , **20** a thrwyddo ef, ar ôl gwneud
heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth
ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd
yn y nefoedd. **21** Yr oeddech chithau ar un adeg wedi
ymddieithrio, ac yn elyniaethus eich meddwl, a'ch
gweithredoedd yn ddrwg. Ond yn awr, fe'ch cymododd, **22**
yng nghorff ei gnawd trwy ei farwolaeth, i'ch cyflwyno'n
sanctaidd a di-fai a di-fefl ger ei fron. **23** Ond y mae'n rhaid
ichi barhau yn eich ffydd, yn gadarn a diysgog, a pheidio
â symud oddi wrth obaith yr Efengyl a glywsoch. Dyma'r
Efengyl a bregethwyd ym mhob rhan o'r greadigaeth dan y
nef, a'r Efengyl y deuthum i, Paul, yn weinidog iddi.

## CWESTIYNAU

- Trafodwch eich dealltwriaeth o adnodau 19-20. Sut mae'r rhan hon o'r adran yn effeithio'ch syniad o genhadaeth?
- Ym mha ffyrdd, cadarnhaol a negyddol, y mae'r Eglwys yn cael ei phortreadu yn yr adran?
- Beth yw'ch dealltwriaeth chi o genhadaeth yr Eglwys i'r cread cyfan? Sut ydych yn byw'r ddealltwriaeth hon yn eich bywyd bob dydd?

## GWEDDI

Dad nefol,

diolchwn i ti am ein caru a rhoddi i ni dy unig Fab. Diolchwn i ti hefyd am roddi i ni gyfle i gyhoeddi'r Newyddion Da i'r byd: ein bod wedi'n hachub o bechod ac wedi derbyn bywyd tragwyddol trwy Iesu Grist.

Gan y Parchg. Alan Kyaw Myo Naing, Esgobaeth Yangon

## GWEITHREDU

Yr wythnos hon, meddyliwch am sut yr ydych chi'n lledaenu Newyddion Da yr Efengyl. Os teimlwch nad ydych yn gwneud hynny, meddyliwch am sut y gallech ddechrau ar hyn. Dewch â'r syniadau hyn i'w rhannu yn y cyfarfod nesaf.



"Danfon allan weithwyr i'r cynhaeaf

# ASTUDIAETH 2

# DYSGU, BEDYDDIO A MEITHRIN CREDINWYR NEWYDD



Defnyddia'r Ail Nod Cenhadaeth eiriau Iesu ym Mathew 28:19, "Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd." Tasg yr Eglwys yw cynorthwyo credinwyr newydd i dyfu yn eu ffydd a'u dealltwriaeth. Sut mae gwneud hyn gyda sensitifrwydd heb wanhau grym yr Efengyl?

## DECHRAU

I lawer, pregeth y Sul yw'r unig addysg Gristnogol a gânt mewn wythnos, ond gallwn ddysgu pethau newydd mewn llawer ffordd arall. Meddyliwch, er enghraifft, am yr holl ffyrdd creadigol o gynorthwyo plant ifanc i ddysgu.

## STORI O MYANMAR

Datblygodd Adran Efengylu a Chenhadaeth Eglwys Talaith Myanmar strategaeth genhadol yn unol â Phum Nod Cenhadaeth y Cymundeb Anglicanaidd. Cred gref yr adran yw mai ei gwaith yw meithrin credinwyr newydd drwy ddysgu'r ysgrythur drwy ddysgu'r ysgrythur iddynt, sut mae gweddïo, sut, sut i gyfranogi yn y gymdeithas Gristnogol a sut mae bod yn stiwardiaid da o'r Ddaear. Mae'r adran yn credu hefyd fod eglwysi aeddfed yn deillio o feithrin credinwyr newydd. Felly, ceisia'r adran ddatblygu cymunedau drwy gydlynu strategaeth gyfannol o blannu eglwysi, a hynny ochr yn ochr â Christnogion lleol. Cynigir hyfforddiant

mewn plannu eglwysi yn flynyddol i'r sawl sydd am fod yno. Amcan yr hyfforddiant hwn yw adnabod pobl yn ETM sy'n ymdeimlo â galwad i gyhoeddi'r Efengyl ac i feithrin credinwyr newydd.

Dewisodd Esgobaeth Myitkyina, un o wyth esgobaeth Eglwys Talaith Myanmar, bentref Tarung yn ardal drefol Shinbweyan fel ardal genhadol. Mae pentref Tarung tua 150 milltir o Myitkyina, ac mae angen teithio mewn modur ac yna mewn cwch i gyrraedd y pentref. Dim ond saith Cristion sydd yn y pentref a Bwdhyddion ac Animistiaid yw gweddill y trigolion. Trwy amaethu a magu anifeiliaid y mae'r pentrefwyr yn ennill eu bywoliaeth.

Ychydig o gyfleoedd addysg sydd ar gael, a 'does neb o'r ardal wedi bod yn llwyddiannus yn yr arholiad Safon Deg, a eisteddir ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Dewisodd Esgobaeth Myitkyina ddeg person ifanc o'r ardal i wasanaethu fel athrawon a bu'n eu danfon i bentref Tarung ers 2019. Mynychodd yr ieuenctid hyn hyfforddiant mewn plannu eglwysi yn swyddfa daleithiol Yangon. Fodd bynnag, 'roedd yn rhaid i'r Esgobaeth sicrhau hostel breswyl i'r athrawon cyn y gallent ddechrau ar eu gwaith cenhadol. Cymerodd yr Esgobaeth y cam cyntaf hwn drwy adeiladu tŷ preswyl ar y cyd ag aelodau'r eglwys leol.

Ar hyn o bryd, mae'r athrawon a ddanfonwyd o Myitkyina yn dysgu Jingpho a sgiliau iaith Saesneg i blant pentref Tarung, yn ogystal ag ysgrythur, emynau a chaneuon addoli. Bwriad hyn yw meithrin profiad ysbrydol a gwybodaeth credinwyr newydd a hybu tyfiant eglwys newydd yn yr ardal. Erbyn Rhagfyr 2020, roedd dau o'r pentref wedi eu bedyddio.

"Mae angen i ni feithrin credinwyr newydd oherwydd fod llawer yn dechrau amau eu ffydd pan nad oes neb yno i ofalu amdanynt a'u hannog. Rhoddodd Duw orchymyn i ni fedyddio pobl a'u dysgu i ufuddhau popeth y mae wedi gorchymyn i ni," meddai Sayama Valentina Khin Thet Wai, Cydlynydd yr adran Efengylu a Chenhadaeth. "Rhaid i gyhoeddi'r Efengyl a chyflawni'n cenhadaeth fynd law yn llaw" ychwanegodd.

"

Dim ond saith Cristion sydd yn y pentref

*ASTUDIAETH* [PARHAD]

## CWESTIYNAU

- 'Roedd rhaid adeiladu hostel breswyl cyn bod yr athrawon yn medru cyflawni eu cenhadaeth. Pa rwystrau ymarferol ydych chi'n eu hwynebu pan fyddwch yn ceisio meithrin credinwyr newydd?
- Dim ond ychydig Gristnogion sy'n byw yn y pentref, ochr yn ochr â Bwdhyddion ac Animistiaid. Ydy'ch eglwys chi mewn ardal o amrywiaeth crefyddol? Os ydyw, sut ydych yn sicrhau cydbwysedd rhwng ymwneud â chrefyddau eraill a meithrin credinwyr newydd?
- Sut mae'ch cymuned eglwysig chi yn dysgu, bedyddio a meithrin credinwyr newydd? Yn eich grwpiau trafodwch sut mae gwneud hyn yn effeithiol.

## RHUFEINIAID 12: 1-8

**1**Am hynny, yr wyf yn ymbil arnoch, gyfeillion, ar sail tosturiaethau
Duw, i'ch offrymu eich hunain yn aberth byw, sanctaidd a derbyniol
gan Dduw. Felly y rhowch iddo addoliad ysbrydol. **2**A pheidiwch â
chydymffurfio â'r byd hwn, ond bydded ichi gael eich trawsffurfio
trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichi allu canfod beth yw
ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef. **3**
Oherwydd, yn rhinwedd y gras y mae Duw wedi ei roi i mi, yr wyf
yn dweud wrth bob un yn eich plith am beidio â'i gyfrif ei hun yn
well nag y dylid ei gyfrif, ond bod yn gyfrifol yn ei gyfrif, ac yn gyson
â'r mesur o ffydd y mae Duw wedi ei roi i bob un.**4** Yn union fel y
mae gennym aelodau lawer mewn un corff, ond nad oes gan yr
holl aelodau yr un gwaith, **5** 5felly hefyd yr ydym ni, sy'n llawer, yn
un corff yng Nghrist, ac yn aelodau bob un i'w gilydd. **6** A chan fod
gennym ddoniau sy'n amrywio yn ôl y gras a roddwyd i ni, dylem eu
harfer yn gyson â hynny. Os proffwydoliaeth yw dy ddawn, arfer hi
yn gymesur â'th ffydd. **7** Os dawn gweini ydyw, arfer hi i weini. Os
addysgu yw dy ddawn, arfer dy ddawn i addysgu, ac os cynghori, i
gynghori. **8** Os wyt yn rhannu ag eraill, gwna hynny gyda haelioni;
os wyt yn arweinydd, gwna'r gwaith gydag ymroddiad; os wyt yn
dangos tosturi, gwna hynny gyda llawenydd.

> Mae llawer yn dechrau amau eu ffydd pan nad oes neb yno i ofalu amdanynt a'u hannog.

*ASTUDIAETH* [PARHAD]

## CWESTIYNAU

- "...Peidiwch â chydymffurfio â'r byd hwn, ond bydded ichi gael eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl..." Sut y gallwn gael ein trawsffurfio trwy adnewyddu'n meddwl? Sut mae ymroi'n feddyliol wrth i ni rannu'r Efengyl?
- Sonia'r Beibl am ddoniau amrywiol aelodau Corff Crist. Pa ddoniau y gallwch eu hadnabod a'u hannog ynoch chi eich hunan ac mewn eraill?
- Sut y gallwch ddefnyddio'r doniau sydd yn eich cymuned eglwysig chi i feithrin credinwyr newydd?

## GWEDDI

Hollalluog Dduw,

Cynorthwya ni i fod yn ddisgyblion drwy ddilyn ôl dy droed.

Cynorthwya ni i ddangos dy oleuni i'r byd drwy fyw fel disgyblion.

Dysg ni i fod yn wir ddisgyblion.

Gan y Parchg Alan Kyaw Myo Naing,
Esgobaeth Yangon

## GWEITHREDU

Mae bedydd yn croesawu credinwyr newydd i mewn i'r Eglwys. Meddyliwch am sut i wneud eich eglwys chi'n fwy croesawgar. Efallai y gallech wirfoddoli i gyfarch pobl wrth iddynt gyrraedd neu i wahodd pobl newydd i ddod i'r addoliad. Yn y cyfarfod nesaf, trafodwch eich syniadau am wneud yr eglwys yn fwy croesawgar.

# ASTUDIAETH 3

# YMATEB I ANGEN POBL DRWY WASANAETH CARIADUS



Gwasanaeth cariadus Crist-debyg yw consyrn y Trydydd Nod Cenhadaeth. Mae gan bawb ohonom anghenion, ac mae ar bawb ohonom angen cariad. Pan deimlwn ein bod yn cael ein caru, 'rydym yn fwy abl i garu eraill. Ond beth yw cariad?

## DECHRAU

Yn aml, yn y Beibl, cawn ein galw i garu ein cymdogion. Fel y dengys yr astudiaeth hon, nid y person drws nesaf yn unig yw'n cymydog nac o angenrheidrwydd rhywun o'r un ardal.

## STORI O MYANMAR

Yn ystod y pandemig Covid-19, gwasanaethodd nifer o ieuenctid fel gwirfoddolwyr mewn canolfannau cwarantin yn Yangon. Ymatebodd nifer o bobl o wahanol enwadau Cristnogol, gan gynnwys Anglicaniaid ifanc, i gais y Weinyddiaeth Iechyd am wirfoddolwyr, drwy Gyngor Eglwysi Myanmar.

Daeth y cais hwn oddi wrth y Weinyddiaeth Iechyd drwy Gyngor Eglwysi Myanmar yn union wedi darganfod yr achos cyntaf o Covid-19 yn Yangon ym Mawrth 2020. Archesgob Myanmar yw Cadeirydd y Cyngor ac felly, gyda chymorth eglwysi ar draws Myanmar, fe alwodd

ieuenctid i wasanaethu fel gwirfoddolwyr.

Un o'r gwirfoddolwyr oedd Wendy Shune Le Ye Tun, oedd yn 20 mlwydd oed. Dywedodd. "trwy ras Duw, 'roeddwn yn hapus i wirfoddoli yng nghanolfan cwarantin Covid-19".

'Roedd y gwirfoddolwyr yn cofrestru bobl pan oeddent yn cyrraedd a chleifion oedd yn cael gadael y ganolfan cwarantin. Gwasanaethodd Wendy ddwy waith: unwaith yn Ysbyty Merched a Phlant Treflan Okkalapa, ac yna yng Nghanolfan Iechyd Covid-19 yn Phaung Gyi. Yn ystod ei gwaith gwirfoddol yn yr Ysbyty Merched a Phlant, gweithiodd fel un o ddeuddeg oedd wedi eu gosod i wahanol dasgau, gan gynnwys glanhau tu mewn a thu allan i'r adeilad, diheintio arwynebau a glanhau toiledau, yn ogystal â chynorthwyo gyda rheoli adnoddau ar gyfer y cynhyrchydd trydan a'r silindrau ocsigen.

Ar ôl pob lleoliad, byddai'r gwirfoddolwyr yn gwario 14 diwrnod mewn cwarantin, er mwyn iddynt fedru mynd i weithio mewn canolfan arall. Yng Nghanolfan Feddygol Covid-19 Phaung Gyi rhannwyd gwirfoddolwyr yn dri grŵp: staff Gofal Dwys, staff ar wardiau a staff mewn stordai a golchdai.

Eu prif waith oedd glanhau wardiau, a chlirio deunydd oedd wedi ei ddefnyddio gan feddygon a nyrsys. 'Roedd y gwaith yn heriol, ond 'roedd y gwirfoddolwyr yn falch i ddangos eu cariad at gleifion, meddygon a nyrsys.

Dywedodd Wendy Shune Le Ye Tun ei bod yn hapus i fod o wasanaeth yn enw Crist drwy bandemig Cvoid-19. Ei gweddi yw fod pobl ar draws y byd yn dangos eu cariad at ei gilydd ac yn helpu ei gilydd; ac mae'n gweddïo y bydd y pandemig drosodd yn fuan.



> "Trwy Ras Duw, 'roeddwn yn hapus i wirfoddoli

## CWESTIYNAU

- Beth feddyliwch chi yw'r cymhellion a'r ysbrydoliaeth y tu cefn i awydd y gwirfoddolwyr i gynnig gwasanaeth cariadus? Beth sy'n eich cymell a'ch ysbrydoli chi i wasanaethu eraill?
- Meddyliwch am y cysylltiadau sydd gennych yn eich cymuned chi. Fyddech chi'n barod i wasanaethu eraill fel y gwirfoddolwyr yn y stori? Os byddech, sut y gallech wneud hyn yn eich cyd-destun chi?
- Mae yna farn bod yn rhaid i ni rannu'n hymdeimlad o fod yn fregus os ydym am fod mewn gwir berthynas â rhywun. Sut mae hyn yn ein herio ni wrth inni gyflawni'n cenhadaeth? Beth mae'n ei olygu yn nhermau'n perthynas â Duw?

## LUC 10:25-37

**25** Dyma un o athrawon y Gyfraith yn codi i roi prawf
arno, gan ddweud, "Athro, beth a wnaf i etifeddu bywyd
tragwyddol?" **26** Meddai ef wrtho, "Beth sy'n ysgrifenedig
yn y Gyfraith? Beth a ddarlleni di yno?" **27** Atebodd yntau, "
'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac
â'th holl nerth ac â'th holl feddwl, a châr dy gymydog fel ti dy
hun.' " **28** Meddai ef wrtho, "Atebaist yn gywir; gwna hynny,
a byw fyddi." **29** Ond yr oedd ef am ei gyfiawnhau ei hun, ac
meddai wrth Iesu, "A phwy yw fy nghymydog?" **30** Atebodd
Iesu, "Yr oedd rhyw ddyn yn mynd i lawr o Jerwsalem i
Jericho, a syrthiodd i blith lladron. Wedi tynnu ei ddillad oddi
amdano a'i guro, aethant ymaith, a'i adael yn hanner marw.
**31** Fel y digwyddodd, yr oedd offeiriad yn mynd i lawr ar hyd
y ffordd honno; pan welodd ef, aeth heibio o'r ochr arall. **32**
Yr un modd daeth Lefiad hefyd at y man; gwelodd ef, ac aeth
heibio o'r ochr arall. **33** Ond daeth teithiwr o Samariad ato;
pan welodd hwn ef, tosturiodd wrtho. **34** Aeth ato a rhwymo
ei glwyfau, gan arllwys olew a gwin arnynt; gosododd ef ar ei
anifail ei hun, a'i arwain i lety, a gofalu amdano. **35** Trannoeth

*ASTUDIAETH 3* **[PARHAD]**

tynnodd ddau ddarn arian allan a'u rhoi i'r gwesteiwr, gan ddweud, 'Gofala amdano. Os byddi wedi gwario rhywbeth dros ben, fe dalaf fi yn ôl iti pan ddychwelaf.' **36** P'run o'r tri hyn, dybi di, fu'n gymydog i'r dyn a syrthiodd i blith lladron?" **37** Meddai ef, "Yr un a gymerodd drugaredd arno." Ac meddai Iesu wrtho, "Dos, a gwna dithau yr un modd."

## CWESTIYNAU

- Yng ngoleuni'r darn cyfarwydd hwn, ystyriwch pwy yw'ch cymydog.
- Meddyliwch am adegau pan y cawsoch hi'n anodd caru eich cymydog. Pam ei cawsoch yn anodd? Sut y bu ichi lwyddo goresgyn yr anhawster?
- Byddwn yn clywed ar brydiau fod caru Duw a charu eraill yn ddyletswydd neu'n gyfrifoldeb Cristnogol. Ond os yw caru'n ddyletswydd a ydyw'n wir gariad? Sut y gallwn ddangos gwasanaeth cariadus tuag at rywun nad ydym yn caru?

## GWEDDI


Dduw cariadlon, helpa ni i wasanaethu'n gilydd yn ostyngedig. Boed inni dy wasanaethu di wrth inni wasanaethu'n gilydd. Agor ein llygaid i ganfod holl amrywiaeth Corff Crist a helpa ni i fod yn fendith i eraill. Gan Ester Snow Hnin Hnin Aye, Coleg Diwinyddol Holy Cross, Yangon

## GWEITHREDU

Ni ellir gorfodi cariad. 'Derbyniasoch yn rhad; rhoddwch yn rhad' (Mathew 10:8). Fel unigolion ac fel eglwys, ystyriwch sut y gallech ddechrau rhannu mwy o'ch bendithion gydag eraill. Dewch â'r syniadau hyn i'r cyfarfod nesaf.

# ASTUDIAETH 4

# CEISIO TRAWSNEWID STRWYTHURAU ANGHYFIAWN CYMDEITHAS, HERIO TRAIS O BOB MATH AC YMGYRRAEDD AT HEDDWCH A CHYMOD



Mae'r Pedwerydd Nod Cenhadaeth yn ein herio i holi sut mae'r Efengyl yn medru gwneud gwahaniaeth yn y byd, nid i unigolion yn unig ond i'r strwythurau a'r sefydliadau sy'n effeithio bywydau pawb ohonom.

## DECHRAU

Gelwir Cristnogion i weithio dros gyfiawnder mewn byd lle mae'r gwan yn aml yn cael eu gorthrymu gan y cyfoethog a'r grymus. Fodd bynnag, tra'i bod yn hawdd gweld canlyniadau anghyfiawnder, weithiau mae ei achosion yn fwy anodd eu dirnad.

## STORI O MYANMAR

Lleolir pentref Poe Paw Lay ar lethrau'r mynydd gerllaw'r ffin rhwng Thailand a Myanmar. Triga tua 30 o deuluoedd yno. Bwdhyddion yw'r rhan fwyaf o'r pentrefwyr, gyda rhai'n Gristnogion a rhai'n Animistiaid. Ffermwyr yw'r rhan fwy ohonynt sy'n tyfu reis a sesami gan ddefnyddio'r dull amaethu symudol.

Gwnaed datblygiadau arwyddocaol yn yr ymdrech hir tuag at heddwch yn Myanmar yn ystod 2020. Wedi'r etholiad ym mis Tachwedd, sefydlwyd trafodaethau heddwch rhwng y gwahanol bleidiau, a daethpwyd i gytundebau cychwynnol. Rhan o'r cynllun oedd galluogi pobl oedd

> “Yn awr, mae gennym ddŵr, undod a heddwch

wedi ffoi’r wlad oherwydd y gwrthdaro i ddychwelyd i’w gwlad. Roedd Poe Paw Lay yn un o’r pentrefi a dderbyniodd ddychweledigion o wersylloedd ffoaduriaid oedd wedi’u lleoli ar hyd y ffin. Gwelodd Esgob Hpa-an, Y Gwir Barchedig Saw Mark Maung Doe, hyn fel cyfle i bentref Poe Paw Lay ddatblygu ei addysg, ei ofal iechyd a’i sectorau economaidd. Oherwydd y datblygiad hwn, mae’r gymuned wedi bod yn fwy heddychol a sefydlog. Fodd bynnag, mae dau bentref cyfagos, Panwelbue a Pwar Bukyoe, wedi brwydro i gael hyd i ffynhonnell o ddŵr diogel i’w yfed ers llawer blwyddyn. Cymer awr i’r trigolion gyrchu dŵr a’i gario ’nol i’r pentref a dim ond wedi i’r tymor glawiog ddechrau y gallant storio dŵr glaw.

Pan ymwelodd staff o Esgobaeth Hpa-an â Poe Paw Lay, gofynnodd pentrefwyr o Panwelbue a Pwar Bukyoe a allai’r ymwelwyr ddatrys y broblem ddŵr. O ganlyniad, aeth staff yr Esgobaeth a’r trigolion ati i chwilio am ffynhonnell ddŵr ar gopa’r mynydd. Cafwyd hyd i fan da i gasglu dŵr, dim ond 4 milltir o’r pentref. Ond ’roedd her arall: byddai’r rhaid gosod pibellau i’r pentref fyddai’n mynd heibio i ddwy fferm. ’Roedd rhai trigolion yn amharod i ganiatáu mynediad i’w tir er mwyn gosod y pibellau.

O ganlyniad, cyfarfu staff Esgobaeth Hpa-an gyda’r pentrefwyr i drafod sut oedd datrys y broblem. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd nes bod yr holl drigolion yn sylweddoli mor bwysig oedd dŵr i bawb. Dechreuwyd ar y prosiect, er llawenydd i bawb, gyda thrigolion o’r tri phentref yn helpu i osod a chysylltu pibellau. Wedi bythefnos, cafodd y pentrefwyr gyflenwad o ddŵr glân.

Yn ôl Naw Mu, un o’r trigolion, “o ganlyniad i gyfraniadau’r Esgobaeth a’r cyfranwyr, mae gennym ddŵr, undod a heddwch. Hoffwn ddiolch i bawb a’n cefnogodd ni”.

## CWESTIYNAU

- Gweithiodd trigolion tri phentref gyda'i gilydd i oresgyn anghyfiawnder. Pa fudiadau y gallech chi gydweithio â hwy yn eich ardal chi i herio anghyfiawnder?
- Roedd dau bentref angen dŵr tra bod pentref arall â chyflenwad eisoes. A oes anghyfiawnderau neu anghenion yn eich ardal chi y gallech gynnig eich help i'w datrys? Sut y gallwch chi neu'ch eglwys eu helpu i wneud hyn?
- Arweiniodd llwyddiant y ffynhonnell ddŵr at heddwch ymhlith y pentrefwyr. Pa faterion sy'n rhannu'ch cymuned leol chi? Sut y gallech ymateb iddynt?

## ESEIA 35: 1-7

**1** Llawenyched yr anial a'r sychdir, gorfoledded y diffeithwch,
a blodeuo.
**2** Blodeued fel maes o saffrwn, a gorfoleddu â llawenydd a
chân.
Rhodder gogoniant Lebanon iddo, mawrhydi Carmel a Saron;
cânt weld gogoniant yr ARGLWYDD, a mawrhydi ein Duw ni.
**3** Cadarnhewch y dwylo llesg, cryfhewch y gliniau gwan;
**4** dywedwch wrth y pryderus, "Ymgryfhewch, nac ofnwch.
Wele, fe ddisgyn ar Edom, ar y bobl a ddedfryda i farn.
**5** Yna fe agorir llygaid y deillion a chlustiau'r byddariaid;
**6** fe lama'r cloff fel hydd, fe gân tafod y mudan;
tyr dyfroedd allan yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffeithwch;
**7** bydd y crastir yn llyn, a'r tir sych yn ffynhonnau byw;
yn y tir garw, lle cyrcha'r siacal, bydd gweirglodd o gorsennau
a brwyn.

"Bydd yr anial a'r sychdir yn llawenhau

## CWESTIYNAU

- Meddyliwch am rywle sy'n dioddef anghyfiawnder mawr ar hyn o bryd. Beth fyddai'r darn hwn yn ei olygu i'r bobl yno?
- Ystyriwch adnodau 5-6. Pe bai'r bobl yr ydych newydd fod yn meddwl amdanynt sy'n dioddef anghyfiawnderau yn medru siarad â'r holl fyd, beth allent fod yn ei ddweud? Beth allai'ch ymateb chi fod i hyn?
- Pa achosion sy'n mynd â bryd eich eglwys chi? A ydyw'r materion hyn yn ganolog i genhadaeth eich eglwys? Sut allai bobl ymwneud mwy â'r achosion hyn?

## GWEDDI

Arglwydd Dduw, ysbrydola ni i adeiladu cymuned sy'n ffocysu ar heddwch, cyfiawnder a gobaith.

Boed i ni ddiogelu'r bregus a'r gwan, gan sicrhau bwyd a chysgod i'r newynog a'r digartref.

Gwna ni'n halen a goleuni yn y tywyllwch, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Gan Ester Snow Hnin Hnin Aye, Coleg Diwinyddol Holy Cross, Yangon


## GWEITHREDU

Meddyliwch am anghyfiawnder sydd yn eich cymuned chi, meddyliwch sut allai'ch eglwys chi ymateb i hyn ac ystyriwch pwy allai fod yn bartneriaid gyda'ch eglwys er mwyn goresgyn yr anghyfiawnder hwn yn effeithiol.

> "Nodwch anghyfiawnder yn eich cymuned chi

# ASTUDIAETH 5

## ANELU AT WARCHOD CYFANRWYDD Y CREAD, A CHYNNAL AC ADNEWYDDU BYWYD AR Y DDAEAR.



Atgoffir ni gan y Pumed Nod Cenhadaeth fod Duw yn dyheu am gynghanedd y Cread cyfan, ac nid y teulu dynol yn unig. Ond llwyddodd y ddynolryw i sbwylio'r blaned, gwenwyno'r moroedd, yr afonydd a'r tir, torri'r fforestydd glaw i lawr, a pheryglu planhigion ac anifeiliaid.

### DECHRAU

Mae Duw yn caru pobl, a luniwyd ar ddelw Duw. Beth mae gweddill y Cread – y blaned, y bydysawd, planhigion ac anifeiliaid – yn ei ddatguddio am Dduw?

### STORI O MYANMAR

Dywedodd y Parchg. Samuel Zaw Seng, gan ddwyn ar gof eiriau pentrefwyr yn Nant Pauk Pauk ym mryniau Naga, "feddyliom ni erioed fod yr amgylchedd yn rhan o'r Cread; dim ond ar ôl myfyrdod Beiblaidd y daethom i sylweddoli hyn".

Mae'r Parchg. Samuel yn aelod o staff datblygu sy'n gweithio i Eglwys Talaith Myanmar (ETM). Gwaith cymunedol yn Esgobaeth Mandalay yw ei gyfrifoldeb, ond bu'n ymwneud â phrosiectau ym mryniau Naga, yn fwyaf arbennig o gwmpas treflan Khamtee. Mae'r siwrnai o Khamtee i Mandalay yn cymryd tua awr mewn awyren. Yna fe gymer 4 awr i gyrraedd

pentrefi Naga mewn cwch. Y dref agosaf yn yr ardal yw Kaung Hein ac oddi yno mae'n cymryd pedair awr i gerdded i bentref Nant Pauk Pauk, lle y lleolir y prosiect amaethyddol. Mae bobl Naga yn byw bywyd cynnil. Maent yn pysgota yn y nant ac yn plannu reis ar lethr y mynydd, gan ddefnyddio dulliau torri a llosgi. Pan maent yn pysgota, maent yn defnyddio cemegau sy'n arafu'r pysgod, gan eu gwneud yn haws eu dal. Maent yn torri coed i lawr er mwyn clirio tir i blannu reis, yna'n llosgi'r meysydd wedi iddynt orffen â nhw. Gwnânt hyn bob blwyddyn ac o ganlyniad maent yn lleihau'r goedwig ac yn creu llethrau moel a diffrwyth yn yr ardal. Yn anffodus, nid ydynt yn deall effeithiau hyn oll ar yr amgylchedd.

Gwelodd y Parchg Samuel hyn yn digwydd bob blwyddyn a phenderfynodd eu dysgu i blannu resi mewn cae yn hytrach nag ar lethr y mynydd. Arweiniodd astudiaethau Beiblaidd ar y Greadigaeth a gweledigaeth Duw parthed y ddynolryw. Gwrandawodd y gymuned arno gyda pharch ac, yn araf, dechreusant ddeall gweledigaeth Duw.

Daeth trigolion  y pentref i ddeall pwrpas Duw iddynt ar y ddaear: Gwarchod yr amgylchedd a nhw eu hunain. Llwyddwyd i atal defnyddio cemegau fel rhan o'u dull pysgota gan ei wneud yn glir y byddai unrhyw un a oedd yn parhau i wneud hyn yn cael ei gosbi. Dywedodd y pentrefwyr, " 'Rydym bob amser wedi gofyn i Esgob Mandalay am unrhyw beth oedd ei angen arnom. Nid oeddem yn sylweddoli fod Duw wedi rhoi adnoddau i ni yn y mannau lle 'rydym yn byw. 'Rydym yn gwybod yn awr fod gennym ein hadnoddau'n hunain ac fe'u defnyddiwn yn y dyfodol".

Peidiodd trigolion Nant Pauk Pauk â defnyddio dulliau amaeth torri a llosgi hefyd ac maent yn awr yn datblygu maes paddy gerllaw'r pentref. Mae'r gymuned yn gwybod bellach mai eu cyfrifoldeb nhw yw'r amgylchedd a bod rhaid iddynt ofalu amdano'n ddoeth. Caiff y cymunedau gymorth staff datblygu megis y Parchg Samuel Zaw Seng i ofalu am fywoliaethau pobl a Chread Duw.

> “Daeth trigolion y pentref i ddeall pwrpas Duw iddynt ar y ddaear

## CWESTIYNAU

- Newidiodd y pentrefwyr o'u hen ffyrdd er mwyn gofalu'n well am yr amgylchedd. A oes arferion neu ffyrdd cyfarwydd o wneud pethau y gallech chi eu newid er mwyn lleihau'r effaith ar newid hinsawdd?
- 'Roedd y Parchg Samuel Zaw Seng yn medru dangos i drigolion Nant Pauk Pauk fod yr amgylchedd yn bwysig yng nghynllun Duw. Meddyliwch am sut y gallai'ch eglwys chi gymell mwy o bobl i fabwysiadu dulliau amgen eco-gyfeillgar.
- Gwnaeth y pentrefwyr newidiadau sylweddol i'w ffordd o fyw. Beth yw'r peth gwirioneddol fawr y gallai'ch eglwys chi ei wneud i wneud gwir wahaniaeth yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd?

## SALM 8

**1** O ARGLWYDD, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear! Gosodaist dy ogoniant uwch y nefoedd,

**2** codaist amddiffyn rhag dy elynion o enau babanod a phlant sugno, a thawelu'r gelyn a'r dialydd.

**3** Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r sêr, a roddaist yn eu lle,

**4** beth yw meidrolyn, iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu amdano?

**5** Eto gwnaethost ef ychydig islaw duw a'i goroni â gogoniant ac anrhydedd.

**6** Rhoist iddo awdurdod ar waith dy ddwylo, a gosod popeth dan ei draed:

**7** defaid ac ychen i gyd, yr anifeiliaid gwylltion hefyd,

**8** adar y nefoedd, a physgod y môr,
a phopeth sy'n tramwyo llwybrau'r dyfroedd.

**9** O ARGLWYDD, ein Iôr, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!

*ASTUDIAETH 5* [PARHAD]

## CWESTIYNAU

- Edrychwch ar adnodau 5-6. Beth yw'ch dealltwriaeth chi o'r cyfrifoldeb a roddodd Duw i'r ddynolryw?
- "O enau babanod a phlant sugno". Beth yw'r berthynas rhwng yr adran hon a'r don gyfredol o weithgaredd ymhlith ieuenctid? Beth allwn ni ddysgu oddi wrthynt?
- Sut ydych chi a'ch eglwys yn ymgeisio at 'warchod cyfanrwydd y greadigaeth'? Sut y gall y Pumed Nod Cenhadaeth hwn gael ei gynnwys yn strategaeth genhadol eich eglwys chi?

## GWEDDI

Dad nefol,

Diolchwn i ti am roddion y Cread, arwydd o'th gariad a'th ddaioni tuag atom.

Maddau i ni am inni fethu â bod yn stiwardiaid o'r Cread a ymddiriedaist i ni.

Boed i ni gyflawni'n well ein dyletswydd fel stiwardiaid ffyddlon y Cread.

Gan y Gwir Barchg Samuel San Myat Shwe,

Esgob Cynorthwyol Esgobaeth Yangon

"Dyro i ni barch at fywyd a chariad at bob creadur

## GWEITHREDU

Dewiswch fater amgylcheddol sy'n eich poeni. Pa beth bychan y gallwch ei gyflawni i wneud gwahaniaeth?

> “
>
> Duw sy’n anfon yw Duw

## MYND YN DDYFNACH: MEDDYLIAU YCHWANEGOL AM GENHADAETH

Yn yr adran hon, ceir cyfle i feddwl yn ddyfnach am rai o’r themâu a gyffyrddwyd â nhw hyd yma yn y cwrs astudio hwn.

### MISSIO DEI

Term Lladin yw Missio Dei a ellir ei gyfieithu yn ‘cenhadaeth Duw’. Yn ei lyfr dylanwadol, Transforming Mission: Paradigm Shifts in Theology of Mission, fe ddywed David Bosch fod Missio Dei yn golygu “gweithgaredd Duw, sy’n cynnwys yr Eglwys a’r byd, y caiff yr Eglwys ei breintio i rannu ynddo”.

Ymhelaetha Winfield Bevins ar hyn, gan ddweud fod “yr Eglwys wedi’i gwreiddio yn y cysyniad o Missio Dei, sy’n golygu mai dim ond un cenhadaeth sydd, sef, cenhadaeth Duw. Duw sy’n anfon yw Duw, gyda dyhead am weld y ddynolryw a’r Cread wedi eu cymodi, eu gwaredu a’u hiachau. Ni ellir deall cenhadaeth Duw yn well yn unman nag ym mherson a gwaith Iesu Grist”.

Os mai ‘cenhadaeth Duw’ yw cenhadaeth yr eglwys, ym mha ystyr y gellir meddwl am hyn fel ein cenhadaeth ‘ni’, fel Eglwys neu unigolyn, hefyd? Ai rhywbeth a wnawn ni, rhywbeth a wna Duw neu cyfuniad o’r ddau efallai yw cenhadaeth?

### CENHADAETH A’R EGLWYS

Yn ôl Cyngor Eglwysi’r Byd ac Ail Gyngor y Fatican, “natur yr Eglwys yw bod yn genhadol”. Nid rhan fechan o’r hyn a wna’r Eglwys yw cenhadaeth. Yn hytrach, y mae cenhadaeth yn cwmpasu holl weithgarwch yr Eglwys.

Awgryma Melba Maggay, diwinydd Filipina amlwg, y dylem ehangu ein dealltwriaeth o genhadaeth yn wyneb y ffaith mai cenhadaeth yw popeth a wna’r eglwys. Ysgrifenna, “gofyn tystiolaeth y Deyrnas am fwy na phregethwyr; mynna fod holl Gorff Crist yn weladwy bresennol ym mhob agwedd ar fywyd dynol”. Adlewyrcha hyn natur aml-ochrog cenhadaeth a amlinellir yn y Pum Nod Cenhadaeth drwy gydol y canllaw astudio hwn.

Gan bwysleisio natur genhadol, allblyg yr Eglwys, dywedodd yr Archesgob William Temple mewn brawddeg enwog mai

"yr Eglwys yw'r unig gymdeithas sy'n bodoli er lles y sawl nad ydynt yn aelodau ohoni".

- Ydych chi'n credu fod yr eglwys yn genhadol ei natur? Sut y gallai'ch eglwys chi fod yn fwy cenhadol?
- I ba raddau y mae'r eglwys i bobl 'tu mewn' ac i bobl 'tu allan'?

## CENHADAETH A'R YSBRYD GLÂN

Yn ôl Janice Price, "Oddi ar yr eglwys gynharaf oll, bu i deulu Duw gofleidio amrywiaeth a chroesi ffiniau diwylliannol. 'Roedd Pentecost yn ymgynulliad aml-ddiwylliannol a thraws-ddiwylliannol. Bu cenhadaeth Duw drwy'r Ysbryd Glân erioed a heddiw ynglŷn â chwalu rhwystrau a godwyd gan bobl a systemau dynol".

- Sut ydych chi'n deall swyddogaeth yr Ysbryd Glân mewn gwaith cenhadol? A ydych yn teimlo eich bod yn cael eich arwain gan yr Ysbryd Glân yn eich bywyd bod dydd?

## CENHADAETH SENSITIF

Pan yn siarad yn nathliadau 150 mlynedd er sefydlu Eglwys Anglicanaidd Siapan, rhoddodd yr Archesgob Rowan Williams ddarlun o'r modd ansensitif a gyflawnwyd cenhadaeth yn hanesyddol. Dywedodd, "Mewn llawer cyd-destun cyrhaeddodd y genhadaeth Gristnogol nid yn unig yn gwisgo esgidiau trwm ond yn barod hefyd i'w defnyddio i sathru ar gymaint o draed â phosibl. Efallai mai pan ddaw cenhadaeth yn droednoeth y mae'n wirioneddol effeithiol". Awgryma Muthuraj Swamy agwedd fwy sensitif at genhadaeth drwy feddwl amdano fel gwahoddiad. Meddai, "Nid ydym yma i gyflawni cenhadaeth mewn modd feirniadol ond i wahodd eraill i gyfranogi gyda ni yn ein llawenydd o fyw yng Nghrist".

- Sut y byddech chi'n teimlo pe bai pobl o grefyddau eraill yn ceisio efengylu yn eich plith – neu pe bai pobl yn gorfodi arnoch chi eu ffordd hwy o wneud pethau? Pa wersi y gallwn eu dysgu drwy hyn?
- Mewn byd lle mae llawer crefydd yn byw ochr yn ochr, beth yw swyddogaeth cenhadaeth Gristnogol? Sut y gallwn siarad am ein ffydd, a'i byw mewn ffordd briodol yn ein byd cyfoes?

> "Pan ddaw cenhadaeth yn droednoeth y mae'n wirioneddol effeithiol

# DARLLEN PELLACH

Transforming Mission: Paradigm Shifts in Theology of Mission gan David J. Bosch (Orbis Books)

Global Kingdom, Global People: Living Faithfully in a Multicultural World gan Melba Maggay (Langham Global Library)

Witnessing Together: Global Anglican Perspectives on Evangelism and Witness gan Muthuraj Swamy (Forward Movement)

Mission on the Road to Emmaus: Constants, Context, and Prophetic Dialogue gan Cathy Ross a Stephen B. Bevans (Gwasg SCM)

Life-Widening Mission: Global Anglican Perspectives gan Cathy Ross (Regnum Books)

Constants in Context: A Theology of Mission for Today gan Stephan B. Bevans a Roger Schroeder (Orbis Books)

World-Shaped Mission: Reimagining Mission Today  Janice Price (Cyhoeddiadau Church House)



USPG PARTNERS IN GLOBAL MISSION

USPG yw'r asiantaeth genhadol Anglicanaidd sy'n partneru gydag eglwysi a chymunedau ar draws y byd yng nghenhadaeth Duw i fywhau ffydd, cryfhau cyd-berthynas, datgloi potensial a sefyll dros gyfiawnder. Fe'i sefydlwyd yn 1701.

Mae gan USPG dri amcan strategol: Ailfeddwl Cenhadaeth, Ymegnïo Eglwys a Chymuned a Sefyll dros Gyfiawnder. Dygwn bobl at ei gilydd o rannau gwahanol o'r Eglwys fyd-eang mewn sgyrsiau ac ymgyfarfodydd dwfn sy'n cyfoethogi'n gilydd gyda'r nod o ddyfnhau ffydd yn Iesu Grist. Ceisiwn wneud cysylltiadau rhwng eglwysi'r Cymundeb Anglicanaidd er mwyn cryfhau rhwymau cariad rhyngom a dysgu oddi wrth ein gilydd drwy gyfnewid sy'n cyfoethogi. 'Rydym yn hyrwyddo addysg ac arweinyddiaeth, gan gryfhau undod a doniau'r Eglwys Anglicanaidd. 'Rydym hefyd yn sefyll ochr yn ochr ag eglwysi Anglicanaidd ar draws y byd sy'n ceisio ffurfio cymunedau gobaith a gwrthsefyll, wrth iddynt ymgodymu â newid hinsawdd, mudo, rhyw, hawliau dynol pobl brodorol a byw'n rhyng-grefyddol.

Os hoffech wybod mwy am USPG neu wirfoddoli, ymwelwch â'n gwefan, www.uspg.org.uk

**USPG**
5 Trinity Street
London
SE1 1DB

020 7921 2200
info@uspg.org.uk
www.uspg.org.uk/pray
@USPGglobal

ISSN 2631-4959
Rhif elusen gofrestredig 234518